




SENEDD!



Adroddiad Swyddogion Nate Pidcock

**Senedd
30/11/2020**



Crynodeb gan y Llywydd:

Felly Senedd.2 dyma ni'r diweddaraf o'r pedair wythnos ddiwethaf. Y peth cyntaf yr wyf yn hynod falch ohono'r mis hwn fyddai'r cysylltiadau yr ydym wedi'u ffurfio â Ben Lake ac Elin Jones - rwyf wedi cyfarfod â nhw i drafod problemau y mae ein myfyrwyr yn eu hwynebu, ac mae gen i fwy o gyfarfodydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol i sicrhau perthynas agos rhwng ein myfyrwyr a'r gymuned ehangach. Yn ail, rwy'n hynod falch o'r holl waith caled y mae staff yr UM wedi bod yn ei wneud i baratoi ar gyfer y gwyliau! Mae gennym nifer o brosiectau ar y gweill, yn amrywio o becynnau gofal ar gyfer cartrefi gofal, i addurniadau Nadolig ac ymweliadau gan Siôn Corn ar y campws! Rydym yn deall y bydd llawer mwy o fyfyrwyr eleni yn aros yn Aberystwyth dros y Nadolig, ac rydym yn cynllunio ystod o weithgareddau i helpu'r rheiny sy'n teimlo'n ynysig.

Treuliais lawer o amser yn trefnu ymgyrch yn galw ar i Mark Drakeford wneud penderfyniadau ar gyfer myfyrwyr fyddai'n caniatáu iddynt fynd adref, dim ond i Mark Drakeford wedyn gyhoeddi ei gynlluniau'r diwrnod y cychwynnodd fy ymgyrch! Felly nid oedd honno'n fuddugoliaeth fawr! Mynychais i a Moc hefyd weithdy ar roddwyr sylweddol, gan ddysgu mwy am sut mae ein prifysgol yn derbyn rhoddion gan gyn-fyfyrwyr i ariannu prosiectau newydd i fyfyrwyr. Rydyn ni'n gobeithio chwarae mwy o ran yn y broses hon yn y dyfodol - yn wir, rwyf wedi trefnu galwad yr wythnos nesaf gyda rhoddwr yn America sydd wedi cyfrannu \$5000 yr wythnos diwethaf, rhodd hael iawn.

Mae ein parthau wedi bod yn fwy poblogaidd nag erioed, nawr eu bod nhw ar-lein! Mae hyd yn oed mwy o fyfyrwyr yn mynychu'r rhain, sy'n golygu ein bod ni'n cael mwy o adborth gan fyfyrwyr i ddylanwadu'n uniongyrchol ar y gwaith rydyn ni'n ei wneud. Arweiniodd hyn at sawl cwis a gynhaliwyd gan ein tîm yn ystod y cyfnod clo byr yng Nghymru - cafodd y rhain dderbyniad gwych.

Roedd yr wythnos ddiwethaf yn wythnos Pwyllgor y Brifysgol - mae eich swyddogion yn eistedd ar y pwyllgor hwn i sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei gynnwys yn uniongyrchol ym mhob penderfyniad. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac rydym i gyd wedi cael cyfle i ddweud ein dweud. Ar gyfer y Senedd hon, rwyf wedi cyflwyno polisi yr wyf am i lywyddion y dyfodol weithio arno yn y dyfodol sy'n golygu llawer i mi, a hefyd syniad brys ynghylch etholiadau y credaf a fydd yn dod â syniad newydd gwych i'r undeb.



Woj - Y Diweddaraf ar Gyfleoedd

Mae'r Swyddog Cyfleoedd wedi bod yn gweithio ar amryw o wahanol brosiectau dros yr wythnosau diwethaf. Trefnu Tîm *University Challenge* Aberystwyth, gyda'r 2il Brawf wedi'i gynnal ar 27 Tachwedd 2020, oedd yr un mwyaf. Mae'r Swyddog Cyfleoedd yn gweithio ar drefnu digwyddiad Her Aber 2021; hefyd trefnu cyfarfodydd i baratoi ar gyfer Gŵyl Gelf 2021, *Superteams* 2021, a Ryngolgampau Farsiti 2021. Caiff pob un o'r rhain eu cyhoeddi a'u cadarnhau cyn bo hir. Ymhlith y prosiectau newydd, mae'r Swyddog Cyfleoedd wedi bod yn llunio 'Calendr Adfent Aber' i fynd yn fyw ar y 1^{af} o Ragfyr 2020, a fydd yn ysbrydoli myfyrwyr i gadw'n brysur ac yn hapus trwy gyfnod yr Adfent. Mae'r gwaith mwyaf sydd ar y gweill, sy'n ymwneud â gweinyddu Cynllun *Aber All Star*, wedi cymryd y rhan fwyaf o fy amser yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mwy o wybodaeth i ddilyn yn y Senedd nesaf yn 2021.

Connor - Diweddariad Llesiant

Wrthi'n creu'r sylfeini ar gyfer ymgyrch 'Daliwch Ati' gyda'r nod o sicrhau dargadwedd academiaidd; hefyd creu cysylltiadau â'r swyddfa llety i ddod o hyd i ffyrdd o wella amodau byw myfyrwyr, paratoi ar gyfer gwahanol ddiwyddiadau fel Diwrnod Coffáu Traws, Diwrnod AIDS y Byd, a.y.b. a gweithgareddau lleddfau straen. Byddaf yn mynychu diwrnodau datblygu *Student Minds* ar gyfer swyddogion UM. Ar hyn o bryd yn gweithio ar wahanol weithgareddau ar gyfer y Nadolig, gan gynnwys paratoi pecynnau Nadolig. Wedi gweithio gyda'r Swyddfa Cyfleoedd ar gynnal ymgyrch Dim Esgusodion i glybiau a chymdeithasau.

Moc - Diweddariad UMCA a Diwylliant Cymru

Dechreuwyd gwersi Cymraeg am ddim UMCA ychydig wythnosau'n ôl, ac maent wedi cael derbyniad da gan fyfyrwyr, gyda 42 o fyfyrwyr yn mynychu'r sesiwn gyntaf, gan ein gorfodi i rannu'r gwersi yn grwpiau llai, sy'n anhygoel. Mae cyfieithu UMCA yn ein cadw ni'n brysur wrth i fwy a mwy o bobl ddewis defnyddio'r gwasanaeth. Wedi cael cyfarfodydd pwyllgor gyda Phwyllgor UMCA a Phwyllgor Pantycelyn, dim byd mawr i adrodd yn ôl amdano, myfyrwyr yn hapus i fod allan o'r cyfnod clo byr. Wedi bod yn gweithio ar Pacio Parsel gyda Chloe i gael anrhegion i Gartrefi Gofal ac wedi cysylltu â'r cartrefi gofal i weld pa rai o'u trigolion sy'n siarad Cymraeg fel y gall myfyrwyr UMCA anfon cerdyn atynt ar gyfer y gwyliau.



SENEDD!

Chloe - Diweddariad Materion Academaidd

Mae'r mis hwn wedi bod yn un hynod o brysur i mi a'r tîm! Yn gyntaf, canolbwyntiodd parth academaidd y mis hwn ar hygyrchedd digidol, gan roi sylw penodol ar gryfderau a gwendidau dysgu cyfunol. Gellir dadlau mai hwn oedd y parth mwyaf llwyddiannus i mi erioed ei gynnal fel swyddog, ac mae eich adborth wedi arwain at y brifysgol yn tanysgrifio i wasanaeth penawdau caeedig ar gyfer Panopto! Y mis hwn hefyd cynhaliwyd 'Gŵyl y Cynrychiolwyr' am y tro cyntaf yn UMAber, sef digwyddiad blynyddol ar ffurf cynhadledd, ar gyfer cynrychiolwyr academaidd etholedig, er mwyn datblygu eu sgiliau mewn nifer o feysydd sy'n allweddol i'w rôl fel llais myfyrwyr. Roeddem yn hynod gyffrous i drefnu nifer o weithdai a gynhaliwyd gan staff yr UM a hyfforddwyr allanol, ac rwy'n falch iawn o ddweud bod y digwyddiad wedi bod yn llwyddiant. Ers y Senedd ddiwethaf, rwyf hefyd wedi ymuno â Connor (Swyddog Llesiant) i greu ymgyrch o'r enw 'Daliwch Ati' gan dargedu 3 o'r prif resymau y gallai myfyrwyr ystyried tynnu allan o'r brifysgol; eu byd academaidd, eu cartref, a'u cymuned. Fel rhan o'r ymgyrch, rydym yn bwriadu mynd i'r afael â rhai o'r heriau y mae myfyrwyr wedi bod yn eu hwynebu ym mhob categori, trwy lobio'r brifysgol ar faterion myfyrwyr a chynnal nifer o ddiwrnodau gweithredu. Fel rhan o fy mhrif waith ar Gymdeithasau Academaidd, rwyf wedi cyfarfod â staff o Ysgol Fusnes Aberystwyth i'w hannog i roi cefnogaeth i'w myfyrwyr i gychwyn cymdeithas. O ganlyniad i hyn, cynhaliodd Tom (Cydlynnydd Datblygu Cymdeithasau) a minnau sesiwn Holi ac Ateb ar gyfer myfyrwyr yn yr adran, a gobeithiwn y bydd rhai o'r rheiny a fynychodd yn ystyried dod yn aelodau pwyllgor ar gyfer cymdeithas academaidd newydd sbon! Yn olaf, rwyf wedi bod yn canolbwyntio'r mis hwn ar weithio gyda'r brifysgol ar eu rheoliadau academaidd, gan herio Prifysgol Aber i gadw rhai o'u rheolau 'argyfwng' o'r flwyddyn academaidd ddiwethaf ar gyfer eleni. Yn anffodus, ni weithredwyd y rhain ar gyfer eleni, ac o'r herwydd, rydw i nawr yn canolbwyntio ar ddulliau eraill o helpu myfyrwyr i liniaru'r effeithiau y mae Covid-19 wedi'u cael arnyn nhw. Roedd hyn yn cynnwys cynnal sesiwn gynghori galw heibio 'Effaith Covid-19 ar Fywyd Academaidd' yr wythnos diwethaf, ynghyd â chyflwyno syniad i'r cyfarfod hwn o'r Senedd.